Eithriadau Eiddo Gwag

Dosbarth	Disgrifiad
A	Mae gwaith i newid y strwythur neu atgyweiriadau sylweddol yn cael eu cynnal arno, neu am y chwe mis cyntaf ar ôl i waith sylweddol gael ei wneud, cyn belled â nad oes fawr ddim dodrefn ynddo yn ystod y cyfnod hwn. Mae modd hawlio'r eithriad hwn am hyd at ddeuddeg mis.
B	Mae elusen gofrestredig yn berchen arno. Gall yr eiddo hwn gynnwys dodrefn. Hyd at 6 mis.
C	Does fawr ddim dodrefn ynddo. Pan nad yw eiddo'n cael ei feddiannu, ac nad oes dodrefn ynddo, bydd modd hawlio eithriad am hyd at chwe mis o'r dyddiad y mae'n dod yn wag. Yn achos eiddo sydd newydd ei adeiladu heb feddianwyr na dodrefn, mae'r cyfnod eithrio chwe mis yn dechrau o'r dyddiad sydd wedi'i nodi yn yr hysbysiad cwblhau.
D	Mae'r person sy'n atebol bellach dan ataliad cyfreithiol.
E	Mae'r person sy'n atebol naill ai'n glaf parhaol mewn ysbyty, neu mae'n breswylydd mewn cartref.
F	Mae'r person sy'n atebol wedi marw a hyd at chwe mis ar ôl rhoi'r profiant neu lythyrau gweinyddu, os nad oes person atebol cymwys arall.
G	Mae meddiannu'r eiddo yn erbyn y gyfraith.
H	Mae'n cael ei gadw'n wag, fel ei fod ar gael i weinidog yr efengyl.
I	Mae'r person sy'n atebol yn breswylydd yn rhywle arall at ddibenion derbyn gofal.
J	Mae'r person sy'n atebol yn breswylydd yn rhywle arall at ddibenion rhoi gofal personol.
K	Mae'r person sy'n atebol yn fyfyriwr, a'r annedd yw ei unig fan preswylio neu ei brif fan preswylio.
L	Mae'r eiddo wedi'i adfeddiannu gan Gymdeithas Adeiladu, Banc neu fenthyciwr morgeisi arall.
Q	Roedd y person diwethaf i'w feddiannu'n fethdalwr.
R	Maes neu angorfa nas meddiannir gan garafán neu, os yw'n berthnasol, cwch.
T	Anheddau nad oes modd eu gosod na'u gwerthu ar wahân, ac mae talwr y Dreth Gyngor yn byw yn y prif adeilad.

Eithriadau Eiddo sydd wedi'i Feddiannu

M	Neuaddau preswyl ar gyfer myfyrwyr yn bennaf.
N	Anheddau lle y mae pob preswylydd yn fyfyriwr.
O	Barics, Ystafelloedd, a Lletyau i Gyplau Priod y Lluoedd Arfog.
P	Eiddo sydd wedi'i feddiannu gan aelod o Lu arall.
S	Eiddo lle mae unigolyn neu unigolion o dan 18 oed yn byw.
U	Anheddau sy'n cael eu meddiannu gan rai sydd â nam gwybyddol sylweddol yn unig neu'r rhai hynny gyda nam gwybyddol sylweddol ynghyd â myfyrwyr.
V	Anheddau sydd wedi'u meddiannu gan Lysgenhadon.
W	Anheddau sy'n cael eu meddiannu gan ddibynyddion sy'n perthyn
X	Anheddau a feddiannir yn gyfan gwbl gan bobl sy'n gadael gofal.